MAPIO GWASANAETHAU CYNHADLEDD GRŴP TEULU YNG NGHYMRU

Children in Wales
Plant yng Nghymru

MEHEFIN 2008

CYNNWYS

	TUDALEN
Methodoleg a Chefndir	2
Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau Cynhadledd Grŵp Teulu yng Nghymru	3
Trefniadau Cyllido	6
Lefelau Staffio a Strwythur	7
Meini Prawf Atgyfeirio	11
Ym mha sefyllfaoedd y mae Cynadleddau Grŵp Teulu yn cael eu defnyddio?	14
Rhan sydd gan y Defnyddwyr	16
Cadw Golwg a Gwerthuso	17
Datblygiad y Gwasanaeth a Blaenoriaethau'r Dyfodol	18
Sylwadau i Gloi	19
Detholiad o Ddeunydd Darllen Pellach	21
Gwasanaethau Cynhadledd Grŵp Teulu yng Nghymru – manylion cysylltu	22

METHODOLEG

Fe wnaed yr ymarfer mapio hwn dros gyfres o fisoedd, yn arwain at gynhyrchu'r adroddiad hwn ym mis Mehefin 2008. Fe ddechreuodd y broses gyda gwybodaeth gefndirol yn cael ei hanfon allan at bob un o'r darparwyr gwasanaethau yng Nghymru a chyfnewid trafodaeth mewn cyfarfod o'r Rhwydwaith Cyfarfod Grŵp Teulu Cymru Gyfan a Cyfnewid Ymarfer De Cymru o'r Cyfarfod Grŵp Teulu. Fe grëwyd holiadur ac fe gafodd hwn hefyd ei anfon at bob un o'r darparwyr gwasanaethau ledled Cymru gyda chyfradd ymateb 100%. Nid oedd yn bosibl ymweld â phob un o'r gwasanaethau yn eu tro, er bod yna gyfweliadau wyneb i wyneb wedi digwydd gyda rheolwyr 5 o'r gwasanaethau ledled Cymru, gyda dau gyfweliad ffôn yn rhagor yn cael eu cynnal. Fe gasglwyd y gweddill o'r wybodaeth drwy gyfrwng yr arolwg holiadur.

CEFNDIR

Fe gafodd yr ymchwil mapio hwn ei gymell gan gais oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgymryd â'r fath orchwyl a chydnabyddiaeth flaenorol o'r angen i gatalogio ymarfer cyfredol a'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau ledled Cymru. Fe obeithir y bydd yr adroddiad hwn yn cefnogi ac yn cyfrannu i ddatblygu polisi ar lefel genedlaethol a gwell twf ymarfer a darpariaeth ar lefelau lleol a rhanbarthol.

Fe ddylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi yn Plant yng Nghymru: sean.oneill@childreninwales.org.uk

Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau Cynhadledd * Grŵp Teulu (CGT) yng Nghymru

*Dalier sylw: Er y bydd y term Cynhadledd Grŵp Teulu neu CGT yn cael ei ddefnyddio drwy gydol yr adroddiad hwn, y mae'n amgenach gan lawer o'r gwasanaethau yng Nghymru'r term Cyfarfod Grŵp Teulu neu FDM.

Ers i Gyngor Gwynedd gomisiynu'r gwasanaeth Cynhadledd Grŵp Teulu cyntaf yng Nghymru yn 1991 drwy Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd, y mae yna gynnydd cyson wedi bod yn nifer y gwasanaethau ledled y genedl. Fel y mae Tabl 1 yn amlinellu, y mae yna ar hyn o bryd wasanaethau CGT yn gweithredu mewn 18 o'r 22 o ardaloedd yr awdurdodau lleol. Yr eithriadau yw Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen.

Yng Nghymru, y mae gwasanaethau CGT naill ai'n cael eu darparu'n fewnol drwy adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol neu'n cael eu comisiynu'n allanol i fudiadau gwirfoddol ac elusennol (cyrff anllywodraethol). Fe all hyn fod naill ai drwy gytundebau lefel gwasanaeth (CLG) neu drefniant pryniant ar y pryd. Y mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad manwl mewn perthynas â phob un ardal awdurdodau lleol.

TABL 1

Awdurdod Lleol	Darparwr Gwasanaethau	Math	Trefniant
Abertawe	Barnardo's Cymru	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Blaenau Gwent	-	-	-
Bro Morgannwg	Gwasanaethau Plant Bro Morgannwg	Statudol	Ddim Ar Gael
Casnewydd	NCH Cymru	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Castell Nedd Port Talbot	Barnardo's Cymru	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Caerdydd	Tros Gynnal	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Caerffili	NCH Cymru	Elusennol / Gwirfoddol	Pryniant ar y Pryd
Ceredigion	Gwasanaethau Plant Ceredigion	Statudol	Ddim Ar Gael
Conwy	Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Gwynedd	Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Merthyr Tudful	-	-	-

Pen-y-bont ar Ogwr	Tros Gynnal	Elusennol / Gwirfoddol	CLG (Cynllun Peilot 3 mis)
Powys	Barnardo's Cymru	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Rhondda Cynon Taf	-	-	-
Sir Benfro	Tros Gynnal	Elusennol / Gwirfoddol	CLG (Cynllun Peilot 3 mis)
Sir Ddinbych	Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Sir Fynwy	NCH Cymru	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Sir Gaerfyrddin	NCH Cymru	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Sir Y Fflint	Gwasanaethau Plant Sir Y Fflint	Statudol	Ddim Ar Gael
Torfaen	-	-	-
Wrecsam	Barnardo's Cymru	Elusennol / Gwirfoddol	CLG
Ynys Môn	Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd	Elusennol / Gwirfoddol	CLG

Y mae Tabl 2 isod yn amlinellu enw penodol pob un o'r gwasanaethau ochr yn ochr â hyd yr amser y mae gwasanaeth wedi bod yn gweithredu yn y sir honno ac a oes yna barhad o ran darparwr gwasanaethau wedi bod yn ystod yr amser hwnnw.

TABL 2

Awdurdod Lleol	CGT yn weithredol yn y sir honno	Enw'r gwasanaethau	Darparwr parhaus?
Abertawe	2008	Barnardo's Cymru	Oes
Blaenau Gwent	-	-	-
Bro Morgannwg	2004	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Bro Morgannwg	Oes
Casnewydd	2001	Atebion Teulu NCH	Oes
Castell Nedd Port Talbot	2001	Partneriaeth Castell Nedd Port Talbot Barnardo's	Oes
Caerdydd	2000	Cylch Teulu	Oes
Caerffili	2005	Atebion Teulu NCH	Oes

Ceredigion	2001	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Ceredigion	Oes
Conwy	2001	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Cwlwm	Oes
Gwynedd	1991	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Cwlwm	Oes
Merthyr Tudful	-	-	-
Pen-y-bont ar Ogwr	2007 (Rhagfyr – prosiect peilot)	Cylch Teulu	Oes
Powys	2007	Gwasanaeth Cyfarfod Grŵp Teulu Barnardo's	Oes
Rhondda Cynon Taf	-	-	(Yr oedd pryniant ar y pryd o CGT wedi digwydd gydag NCH Cymru)
Sir Benfro	2007 (Rhagfyr – prosiect peilot)	Cylch Teulu	Oes (yr oedd pryniant ar y pryd wedi digwydd gyda darparwr arall cyn y dyddiad hwn)
Sir Ddinbych	2005	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Cwlwm	Oes
Sir Fynwy	1999	Atebion Teulu NCH	Oes
Sir Gaerfyrddin	2003	Teuluoedd Ymlaen	Oes
Sir Y Fflint	1998	Taith Y Teulu	Oes
Torfaen	-	-	(Yr oedd CLG gydag NCH Cymru yn bodoli rhwng 2001– 2006)
Wrecsam	2007	Barnardo's Cymru - Compass	Nac Oes (Yr oedd CLG gyda Gwasanaethau Plant Sir Y Fflint yn bodoli rhwng 2004 - 2006)
Ynys Môn	1991	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Cwlwm	Oes

Pwyntiau Allweddol

Fel y mae'r tabl uchod yn dangos, y mae trefniadau cyson wedi bod yn bodoli rhwng awdurdod lleol a'r darparwyr gwasanaethau CGT ledled Cymru, ac eithrio un sir yn unig, a newidiodd ei threfniadau comisiynu (Wrecsam).

Hefyd i nodi yw'r ffaith mai ond un sir sydd wedi rhoi'r gorau i'w gwasanaeth CGT, (Torfaen) gan fod ganddi CLG yn bodoli'n flaenorol gydag NCH Cymru.

Trefniadau Cyllido

Y mae'r tabl isod yn nodi'r trefniadau cyllido cyfredol sy'n bodoli a nifer y CGT, y mae pob un gwasanaeth wedi'i gomisiynu i gyflawni.

TABL 3

Awdurdod Lleol	Darparwr Gwasanaethau	Ffrwd Gyllido	Uchafrif yr atgyfeiriadau
Abertawe	Barnardo's Cymru	AGC (drwy gyfrwng amlinelliad cyfraith gyhoeddus LICC)	15 (yn y 6 mis cyntaf)
Blaenau Gwent	-	-	-
Bro Morgannwg	Gwasanaethau Plant Bro Morgannwg	Plant yn Gyntaf / GCR ALl	Gwasanaethau Plant
Casnewydd	NCH Cymru	AGC, Cymorth a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol (3 phrosiect)	65 (fel cyfanswm)
Castell Nedd Port Talbot	Barnardo's Cymru	Barnardo's & Cymorth	30-50
Caerdydd	Tros Gynnal	AGC a Cymorth	40
Caerffili	NCH Cymru	Pryniant ar y pryd	Pryniant ar y pryd
Ceredigion	Gwasanaethau Plant Ceredigion	Grant Cynnal Refeniw Awdurdod Lleol (GCR ALl) a Cymorth	Dim terfyn uchaf wedi'i bennu
Conwy	Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd	AGC	30
Gwynedd	Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd	AGC & Cymorth	35
Merthyr Tudful	-	-	-
Pen-y-bont ar Ogwr	Tros Gynnal	Llywodraeth Cynulliad Cymru – plant ar fin grant gofal	10

Powys	Barnardo's Cymru	AGC	40
Rhondda Cynon Taf	-	-	-
Sir Benfro	Tros Gynnal	LICC – plant ar fin grant gofal	6
Sir Ddinbych	Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd	AGC	16
Sir Fynwy	NCH Cymru	AGC	12-15
Sir Gaerfyrddin	NCH Cymru	Cymorth ac AGC	25
Sir Y Fflint	Gwasanaethau Plant Sir Y Fflint	60% Cymorth 40% Plant yn Gyntaf / GCR ALl	90-100
Torfaen	-	-	-
Wrecsam	Barnardo's Cymru	Barnardo's a'r Awdurdod Lleol	40
Ynys Môn	Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd	Adran Gwasanaethau Cymdeithasol (AGC)	30

Pwyntiau Allweddol

Tra bod colofn 4 uchod yn amlinellu uchafrif yr atgyfeiriadau y mae gwasanaeth wedi'i gomisiynu i ymgymryd â hwynt, fe all hyn fod braidd yn gamarweiniol yn yr ystyr nad yw'n darparu arwydd manwl-gywir o nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir. Tra nad yw lleiafrif bychan o wasanaethau yn cyrraedd eu targed atgyfeirio oherwydd prinder atgyfeiriadau sy'n cael eu derbyn - fe gaiff hyn ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn - fe wnaeth y mwyafrif o wasanaethau fynnu bod atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn llawer uwch na'r cyllid y maent yn ei dderbyn. Y mae yna ddau wahanol fathau o ymateb i hyn. Y mae rhai gwasanaethau yn dychwelyd at yr awdurdod lleol ac yn ail-drafod cyllid ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith hwn, tra bod gwasanaethau eraill yn ceisio ag amsugno'r gwaith ychwanegol hwn.

I'r mwyafrif o wasanaethau, fodd bynnag, ar hyn o bryd y mae lefelau cyllid yn annigonol i ateb y galw a roddir ar eu gwasanaeth ar hyn o bryd, gyda disgwyliad y bydd pwysau'n cynyddu gyda dyfodiad yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Y mae hyn yn ychwanegol at yr her barhaus o geisio â sicrhau cyllid hirdymor i alluogi gwasanaethau i adeiladu cynhwysedd ac i gadw lefelau staff sy'n ymadael.

Pwynt nodedig arall i fyfyrio arno yw'r gwahaniaeth mewn perthynas â'r nifer o atgyfeiriadau y mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu i ymgymryd â hwynt. Ac eithrio'r gwasanaethau peilot a gwasanaethau sydd newydd eu sefydlu, fe all niferoedd amrywio rhwng 12/15 (Sir Fynwy) a 16 (Sir Ddinbych), i 65 (Casnewydd) a 90/100 (Sir Y Fflint). Y mae'n eglur na ellir egluro'r

gwahaniaeth hwn dim ond mewn termau demograffeg neu nifer y plant a'r bobl ifanc a all, fe ganfyddir, elwa oddi wrth ymyrraeth CGT o fewn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn.

Lefelau a strwythur staffio

Y mae'r tabl a ganlyn wedi'i lunio i ddangos y strwythurau a'r trefniadau staffio cyferbyniol sy'n bodoli o fewn pob un gwasanaeth CGT.

TABL 4

Awdurdod Lleol	Enw'r Gwasanaeth	Lefelau a strwythur staffio
Abertawe	Barnardo's Cymru	1 x cydlynydd (llawn amser) Staff sesiynol – 20 awr yr wythnos.
Blaenau Gwent	-	-
Bro Morgannwg	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Bro Morgannwg	1 x cydlynydd / rheolwr 1 x cydlynydd / eiriolwr 1 x gweinyddwr
Casnewydd	Atebion Teulu NCH	Cydlynwyr
Castell Nedd Port Talbot	Partneriaeth Castell Nedd Port Talbot Barnardo's	1 x uwch-ymarferwr / arweinydd tîm 3 x cydlynydd sesiynol 4 x eiriolwr sesiynol
Caerdydd	Cylch Teulu	1 x arweinydd/ymarferwr prosiect 2 x gydlynydd (llawn amser a rhan amser) 2 x gydlynydd sesiynol 3 x eiriolwr sesiynol 1 x gweinyddwr
Caerffili	Atebion Teulu NCH	*Trefniant pryniant ar y pryd – dim staff pwrpasol*
Ceredigion	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Ceredigion	1 x uwch-gydlynydd sesiynol 3 x chydlynydd sesiynol
Conwy	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Cwlwm	1 x rheolwr prosiect (rhan amser) *(Conwy a Sir Ddinbych)* 8 x cydlynydd sesiynol *(Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych)*
Gwynedd	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Cwlwm	1 x rheolwr prosiect (rhan amser) *(Gwynedd ac Ynys Môn)*

		8 x cydlynydd sesiynol *(Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych)*
Merthyr Tudful	-	-
Pen-y-bont ar Ogwr	Cylch Teulu	1 x cydlynydd (rhan amser)
Powys	Gwasanaeth Cyfarfod Grŵp Teulu Barnardo's	1 x arweinydd tîm 5 x cydlynydd sesiynol
Rhondda Cynon Taf	-	-
Sir Benfro	Cylch Teulu	1 x cydlynydd (rhan amser)
Sir Ddinbych	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Cwlwm	1 x rheolwr prosiect (rhan amser) *(Conwy a Sir Ddinbych)* 8 x cydlynydd sesiynol *(Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych)*
Sir Fynwy	Atebion Teulu NCH	Cydlynwyr
Sir Gaerfyrddin	Teuluoedd Ymlaen	1 x cydlynydd (llawn amser) 1 x cydlynydd (rhan amser) 2 x eiriolwr (rhan amser) 1 x eiriolwr sesiynol
Sir Y Fflint	Taith Y Teulu	1 x rheolwr prosiect 1 x uwch-gydlynydd 18 x cydlynydd sesiynol 1 x gweinyddwr (rhan amser)
Torfaen	-	-
Wrecsam	Barnardo's Cymru	1 x uwch-ymarferwr (llawn amser) 3 x cydlynydd sesiynol (1 diwrnod yr wythnos yr un) 1 x gweinyddwr (rhan amser)
Ynys Môn	Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Cwlwm	1 x rheolwr prosiect (rhan amser) *(Gwynedd ac Ynys Môn)* 8 x cydlynydd sesiynol *(Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych)*

<u>Pwyntiau Allweddol</u>

i) Staffio

Fel y mae Tabl 4 yn dangos, y mae yna wahanol drefniadau yn eu lle ym mhob un gwasanaeth yn gysylltiedig â strwythur a lefelau staffio, gydag amryw o wasanaethau'n cyflogi llawer o staff rhan amser a / neu staff sesiynol. Y mae'r holl wasanaethau'n gymaradwy yn yr ystyr eu bod yn

cyflogi cydlynwyr CGT pwrpasol, sydd â rôl o arwain gyda'r trefniadau i gynnull CGT ar gyfer teuluoedd unigol.

Yr oedd llawer o wasanaethau yn ddibynnol ar staff sesiynol a / neu staff rhan amser oherwydd cyfyngiadau cyllido, ac y mae hyn yn wastad yn ffynhonnell pwysau o ran gallu ymateb yn syth unwaith y mae atgyfeiriad yn cael ei dderbyn.

ii) Eiriolaeth
Y mae trefniadau cyferbyniol yn bodoli, fodd bynnag, mewn perthynas â darparu eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Y mae amryw o wasanaethau yn cyflogi eiriolwyr proffesiynol (Castell Nedd Port Talbot, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin) tra bod gwasanaethau eraill yn gwneud defnydd o staff presennol sy'n gallu naill ai gweithredu fel cydlynwyr neu fel eiriolwyr pan fo aelodau eraill o staff yn gweithredu fel cydlynydd (Bro Morgannwg, Casnewydd, Sir Fynwy). Fe fyddai'n ymddangos bod yna lai o ofyn am eiriolwyr proffesiynol o fewn y gwasanaethau sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru.

<u>Cymwysterau</u>
Fe wnaeth yr ymarfer mapio hwn hefyd geisio â datgelu'r cymwysterau sy'n ofynnol gan wasanaethau ar gyfer swyddi allweddol a'r cyfleoedd pellach ar gyfer datblygiad proffesiynol. At ei gilydd, ar gyfer swyddi rheoli neu swyddi arweinwyr prosiect CGT, fe fyddai cymhwyster proffesiynol a/neu gymhwyster ffurfiol yn cael eu hystyried yn hanfodol, ochr yn ochr â'r angen i gael y profiad gwaith angenrheidiol mewn maes cyffelyb neu berthynol.

Ar gyfer swyddi fel cydlynwyr, y mae cymwysterau proffesiynol a/neu ffurfiol yn cael eu gweld fel bod yn hynod o fanteisiol, gyda gwasanaethau'n awyddus i ddenu unigolion sydd â chymhwyster (e.e. diploma, CGC lefel 4) mewn maes perthynol, megis gwaith cymdeithasol, iechyd, cyfiawnder ieuenctid, addysg, gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol, seicoleg neu gyfryngu.

Fodd bynnag, y mae gwasanaethau hefyd yn rhoi pwyslais ar weithwyr cyflogedig posibl yn meddu ar brofiad gwaith helaeth mewn maes perthynol. At ei gilydd, fe fyddai hyn yn cynnwys profiad o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, cadeirio cyfarfodydd a/neu fynychu cyfarfodydd ynglŷn â phobl ifanc.

Y mae rhai gwasanaethau yn eglur o ran y gofynion hyn, yn cynnwys hyd y profiad sy'n ofynnol, e.e., dwy flynedd o weithio gyda phlant a theuluoedd, tra oedd eraill yn llai eglur. Ar gyfer rhai swyddi llai o ran cyfrifoldeb, yr oedd amryw o wasanaethau yn eglur nad oedd yn rhaid i staff dichonol feddu ar gymhwyster penodol er mwyn cael swydd.

Datblygiad a Hyfforddiant Staff
Fe wnaeth yr ymarfer mapio hwn hefyd wahodd gwasanaethau i nodi'r ffynonellau hyfforddiant y maent yn eu cyrchu ar gyfer staff mewn perthynas â chaffael y wybodaeth angenrheidiol yn ymwneud â'r broses paratoi a chyfarfod, a'r gwerth cynhenid o fewn model ymyrraeth yr CGT.

Y mae'r mwyafrif o wasanaethau'n cynnal hyfforddiant mewnol mewn CauGT ar gyfer staff sydd newydd eu penodi, a all gynnwys hyfforddiant penodol yn ymwneud ag eiriolaeth, cydlynu cyfarfod, amddiffyn plant ac arferion gweithio ar eich pen eich hun. Yn ychwanegol, fe fyddai disgwyl i staff hefyd fynychu hyfforddiant ychwanegol o werth i'w swydd, yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth, iechyd a diogelwch, ac yn y blaen.

Y mae amryw o wasanaethau hefyd wedi datblygu trefniadau partneriaeth da gyda darparwyr eraill o wasanaethau yng Nghymru, sy'n caniatáu i staff o'r naill wasanaeth fynychu hyfforddiant a ddarperir gan y llall. Y mae rhai gwasanaethau hefyd wedi gwneud defnydd o hyfforddiant CGT a ddarparwyd gan y Grŵp Hawliau Teulu yn Llundain. Y mae'r corff hwn yn cydlynu ac yn darparu sesiynau hyfforddi rheolaidd fel rhagarweiniad i CGT neu becynnau mwy datblygedig ar gyfer ymarferwyr CGT presennol a'r unigolion hynny sy'n fwy cyfarwydd â'r model.

Y mae yna nifer cynyddol o gydlynwyr CGT wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn achredu fel modd ychwanegol o ennill cydnabyddiaeth ffurfiol am eu gwybodaeth a'u medrau.

Iaith
Fe wnaeth yr arolwg hefyd ofyn i wasanaethau ym mha ieithoedd y gallent ddarparu CGT.

Ac eithrio'r Saesneg, fe ddywedodd 4 o ddarparwyr gwasanaethau sy'n gweithredu mewn 8 o ardaloedd yr awdurdodau lleol y gallent ddarparu'r gwasanaeth yn y Gymraeg ac yr oedd 1 yn gallu darparu gwasanaeth mewn iaith arall (Wrdw). Ar gyfer y gwasanaethau sy'n weddill gydag ond staff sy'n siarad Saesneg, fe ddatganodd atebwyr y byddent yn gwneud trefniadau eraill ar gais teulu. Yr oedd enghreifftiau a roddwyd yn ymwneud â phrynu cydlynydd sy'n ieithyddol gydnaws neu sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu'n cael eu darparu.

Meini Prawf Atgyfeirio

Yr oedd yr ymarfer mapio hwn yn awyddus i ganfod y cyd-destun drwy'r hyn y mae CGT fel ymyrraeth deuluol yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru. Yma, fe ofynnodd yr arolwg gwestiynau yn ymwneud â pha asiantaethau a/neu unigolion a allai atgyfeirio ar gyfer gwasanaeth a beth oedd y maen prawf ar gyfer yr atgyfeiriad hwn, mewn perthynas â statws ac oedran y plentyn. Y mae'r tabl a'r drafodaeth a ganlyn yn rhoi'r manylion yn ymwneud â hyn.

TABL 5

Awdurdod Lleol	Meini Prawf	Atgyfeiriad oddi wrth	Oed y Plentyn	Hunan-atgyfeiriadau a dderbyniwyd
Abertawe	Risg o fod yn rhan gydag achos llys teulu	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	0 – 18	Nac oes
Blaenau Gwent	-	-	-	-
Bro Morgannwg	Plentyn mewn Angen / Amddiffyn Plant / Plant sy'n Derbyn Gofal	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Troseddau Ieuenctid, Tîm Dechrau'n Deg a Thîm Cymorth i Deuluoedd yr NCH	Cyn-geni – 18 (25)	Nac oes
Casnewydd	Eang	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Addysg, Sector Gwirfoddol a Phreifat, Llysoedd	0 – 25	Oes
Castell Nedd Port Talbot	Eang	Holl asiantaethau	0 – 18	Nac oes
Caerdydd	Eang	Unrhyw Asiantaeth	0 – 18	Oes
Caerffili	Plentyn mewn Angen / Plant sy'n Derbyn Gofal / Amddiffyn Plant	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Llysoedd	0 – 15	Nac oes
Ceredigion	Plentyn mewn Angen	Unrhyw Asiantaeth	0 – 18/19	Nac oes
Conwy	Plentyn mewn Angen	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	0 – 18	Nac oes (ond rhywfaint o hyblygrwydd)
Gwynedd	Plentyn	Yr Adran	0 – 18	Nac oes (ond

	mewn Angen / Plant sy'n Derbyn Gofal / Digartref	Gwasanaethau Cymdeithasol, gweithwyr ôl-ofal a swyddogion digartrefedd		rhywfaint o hyblygrwydd)
Merthyr Tudful	-	-	-	-
Pen-y-bont ar Ogwr	Plant ar fin gofal	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	0 – 18	Nac oes
Powys	Plant mewn Angen / Amddiffyn Plant	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Troseddau Ieuenctid	0 - 18	Nac oes
Rhondda Cynon Taf	-	-	-	-
Sir Benfro	Plant ar fin gofal	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	0 – 18	Nac oes
Sir Ddinbych	Plentyn mewn Angen	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	0 – 18	Nac oes (ond rhywfaint o hyblygrwydd)
Sir Fynwy	Plentyn mewn Angen / Amddiffyn Plant / Plant sy'n Derbyn Gofal	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	0 – 16	Nac oes
Sir Gaerfyrddin	Eang	Unrhyw Asiantaeth	0 – 18	Oes
Sir Y Fflint	Plentyn mewn Angen / Amddiffyn Plant	Holl asiantaethau	Cyn-geni – 25	Oes (drwy gyfrwng Cymorth)
Torfaen	-	-	-	-
Wrecsam	Plentyn mewn Angen / Amddiffyn Plant	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	0 - 18	Nac oes
Ynys Môn	Plentyn mewn Angen	Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	0 – 18	Nac oes (ond rhywfaint o hyblygrwydd)

Pwyntiau Allweddol

1. Meini Prawf ar gyfer Atgyfeirio

Fel y mae Tabl 5 yn eglurebu, y mae'r cyd-destun drwy'r hyn y mae ymyrraeth y CGT yn cael ei defnyddio yn amrywio'n fawr ledled Cymru, ac y mae'n ymddangos ei fod yn cael ei bennu gan y CLG neilltuol sy'n bodoli rhwng darparwr gwasanaethau a'r awdurdod lleol. Y mae hefyd yn ymddangos ei fod yn cael ei ddylanwadu gan y ffynhonnell gyllid sydd ynghlwm.

O'r wybodaeth sydd wedi'i lloffa oddi wrth wasanaethau, y mae'n eglur bod amryw o gyrff anllywodraethol sydd wedi'u comisiynu'n allanol ac sy'n cael eu hariannu'n llwyr drwy Adran Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol yn meddu ar ond ychydig neu ddim hyblygrwydd mewn perthynas â'r meini prawf atgyfeirio ac y maent ond yn gallu derbyn atgyfeiriadau ble y mae plentyn wedi'i asesu'n gychwynnol fel plentyn mewn angen - fel a ddiffinnir gan Ddeddf Plant 1989 - a/neu ble y mae yna bryderon am amddiffyn plant a/neu y mae plentyn yn derbyn gofal. Nid yw teuluoedd yn y cyd-destun hwn yn gallu hunan-atgyfeirio ar gyfer yr ymyrraeth hon.

Y mae'n ymddangos bod gan wasanaethau a gomisiynwyd yn allanol nad ydynt yn dibynnu'n gyfan gwbl ar gyllid yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fwy o rychwant i dderbyn atgyfeiriadau oddi wrth ystod o asiantaethau ac sydd â meini prawf atgyfeirio eang i adlewyrchu hyn – ble y mae yna faterion yn ymwneud â lles y plentyn neu ble y mae asiantaethau'n teimlo y gallai'r plentyn elwa oddi wrth ymyrraeth gan CGT. Y mae hyn yn arbennig o wir am y prosiectau hynny sydd wedi sicrhau cyllid gan Cymorth.

Y mae gwasanaethau CGT, sy'n cael eu darparu'n fewnol gan yr awdurdod lleol –Ceredigion, Sir Y Fflint a Bro Morgannwg – i raddau pell mewn sefyllfa i bennu'u meini prawf atgyfeirio eu hunain, gyda'r ddwy sir gyntaf uchod yn derbyn atgyfeiriadau oddi wrth unrhyw asiantaethau.

2. Oed

Hefyd yn werth nodi yw'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau o ran gallu derbyn atgyfeiriad ar sail oed y plentyn. Tra bod y mwyafrif o wasanaethau yn derbyn atgyfeiriadau yn ymwneud â phlant rhwng 0 – 18 mlwydd oed, y mae Casnewydd a Sir Y Fflint ill dwy yn darparu CGT ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed. Yn ychwanegol, y mae Sir Y Fflint a Bro Morgannwg ill dwy hefyd yn gallu cynnull CGT cyn genedigaeth plentyn.

3. 'Didoli' Proffesiynol

Fe wnaeth mwyafrif arwyddocaol o atebwyr godi amryw o bryderon allweddol yn ymwneud â 'didolwyr' proffesiynol, a oedd yn pennu pa deuluoedd oedd yn derbyn gwybodaeth am CGT a hefyd pa deuluoedd oedd yn gallu cael at y gwasanaeth. Mewn llawer o sefyllfaoedd, yr oedd **a** oedd teuluoedd yn derbyn cyfle i gael CGT yn dibynnu'n fawr iawn ar ba weithiwr cymdeithasol unigol o fewn tîm a oedd â chyfrifoldeb am yr achos. Yr oedd rhai gweithwyr cymdeithasol, a oedd yn gefnogol ac yn cydnabod gwerth yr ymyrraeth hon, yn arferol yn atgyfeirio teuluoedd ar gyfer CGT, tra nad oedd eraill, yn aml o

fewn yr un tîm, yn atgyfeirio. Yn ei hanfod, fe allai cyfle teulu i gael at CGT fod yn ddibynnol ar ba weithiwr cymdeithasol a oedd wedi'i neilltuo i'r teulu, ac a oedd unigolyn, tîm a/neu reolwr tîm yn gefnogol i'r ymyrraeth hon ai peidio.

Yn yr un modd, mewn sefyllfaoedd eraill, e.e., addysg, yr oedd yna ymarfer atgyfeirio anghyson yn amlwg ymysg swyddogion lles addysg ac athrawon mewn ysgolion.

4. Cyfyngiadau

O ystyried y cyfyngiadau a osodwyd ar wasanaethau CGT yn gysylltiedig â'r meini prawf atgyfeirio a ffrydiau cyllido, fe ofynnwyd hefyd i atebwyr a oeddynt yn credu y gallai teuluoedd eraill elwa oddi wrth ymyrraeth gan CGT pe byddai'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio'n cael eu hymestyn. Fe ofynnwyd iddynt hefyd ym mha amgylchiadau yr oeddynt yn teimlo y gallai plentyn a/neu deulu elwa oddi wrth ymyrraeth a pham eu bod yn credu mai fel hyn ydoedd hi.

Yr oedd atebwyr a oedd ond yn gallu derbyn atgyfeiriadau yn uniongyrchol oddi wrth Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn neilltuol yn cydnabod gwerth yr ymyrraeth hon ar gyfer plant a theuluoedd mewn amgylchiadau eraill. Fe fyddai llawer o wasanaethau yn awyddus o allu derbyn atgyfeiriadau oddi wrth sectorau eraill, yn cynnwys iechyd, addysg, timau troseddau ieuenctid, ac asiantaethau gwirfoddol, fel y mae gwasanaethau CGT cyfagos ar hyn o bryd yn gallu gwneud.

Gyda chreu'r Rhwydwaith Cyfarfod Grŵp Teulu Cymru Gyfan, fel fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac arferion da, yr oedd atebwyr yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng gwasanaethau ledled Cymru a'r hyn sydd yn aml yn fwy o gyfleoedd ar gyfer plant a theuluoedd i gael at CGT mewn man arall.

Fe fyddai llawer o wasanaethau yn awyddus i allu derbyn hunan-atgyfeiriadau yn uniongyrchol oddi wrth blant a theuluoedd. Ar hyn o bryd, y mae'r mwyafrif o wasanaethau ond yn gallu derbyn atgyfeiriadau oddi wrth weithwyr proffesiynol, ac mewn amryw o achosion, gweithwyr proffesiynol o sectorau penodol.

Ym mha sefyllfaoedd y mae CauGT yn cael eu defnyddio?

Fe ofynnwyd i atebwyr amlinellu ym mha sefyllfaoedd y mae CauGT yn cael eu defnyddio yn eu gwasanaeth. Y mae'r ymyrraeth gan CGT yn arferol yn cael ei defnyddio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, sy'n cynnwys –

- Ble y mae yna risg y caiff plentyn ei roi dan ofal;
- Ble y mae yna faterion addysg, yn cynnwys y risg o blentyn yn cael ei wahardd o'r ysgol;
- Ble y mae yna risg o blentyn yn colli lleoliad gyda gofalwr maeth;
- Ble y mae yna faterion neu bryderon iechyd (yn cynnwys camddefnyddio sylweddau);

- Ble y mae'n cael ei gynnig bod plentyn yn cael ei roi ar gyfer ei fabwysiadau;
- Ble y mae achos llys i ddod;
- Ble y mae yna risg o droseddu neu y mae plentyn wedi bod yn gysylltiedig ag ymddygiad tramgwyddus;
- Ble y mae yna faterion a phryderon tai yn ymwneud â ble y bydd plentyn yn byw;
- Gwneud cynlluniau cysylltu er mwyn i blant dan ofal weld eu teulu;
- Gwneud trefniadau i ddychwelyd plentyn i'w deulu biolegol;
- Ble y mae yna risg o deulu'n mynd yn gysylltiedig ag achos llys teulu;
- Ble y mae yna faterion cam-drin teuluol o fewn y teulu.

Nid yw'r rhestr hon yn un drwyadl ond y mae'n darparu cipolwg ar y llawer o feysydd ble y mae CGT yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i gynorthwyo i ddatblygu cynllun i gymorth plentyn a'i deulu, ac i'r plentyn aros gartref neu yn yr ysgol, neu i ostwng y risg o droseddu.

Ym mha sefyllfaoedd y mae CGT yn fwyaf priodol a buddiol?
Yr oedd yr ymarfer hefyd yn awyddus i adeiladu ar y cwestiwn blaenorol gyda cheisio â chanfod ym mha sefyllfa y mae CauGT wedi bod yn neilltuol o fuddiol a phriodol.

Fe gafodd y defnydd mwyaf effeithiol o CGT eu nodi yn y drefn hon:

1. Ble y mae yna risg nad yw plentyn yn gallu aros yng nghartref ei deulu a'i fod yn gorfod canfod trefniadau byw eraill;
2. Ble y mae yna fwriad i ddychwelyd adref o ofal awdurdod lleol;
3. Pan fydd plentyn yn cael ei leoli o dan ofal awdurdod lleol, fe all CGT wneud cynlluniau cysylltu gyda rhwydwaith ehangach y teulu i sicrhau nad ydynt yn colli cysylltiad gyda'u teulu estynedig pan fônt dan ofal;
4. Ble y mae yna risg bod plentyn yn cael ei wahardd o'r ysgol, ac y mae angen cael cynlluniau i gynorthwyo i sicrhau nad yw hyn yn digwydd;
5. Pan fo perthynas yn chwalu mewn lleoliad gofal maeth neu leoliad gyda theulu;
6. Unrhyw sefyllfa pa bryd bynnag y mae angen gwneud cynllun neu benderfyniad dros blentyn mewn pa sefyllfa bynnag.

Ym mha gyfnod y mae modd defnyddio'r ymyrraeth orau?
Yr oedd hyn efallai'n cael ei ystyried yn gwestiwn cymhleth i ddarparu ymateb manwl-gywir, gan y gallai cyfansoddiad ac amgylchiadau pob un teulu fod yn wahanol iawn. Fodd bynnag, fe deimlwyd yn gyffredinol y dylai teuluoedd yn ddelfrydol allu gofyn am CGT cyn gynted ag y mae mater yn codi sydd angen cynllun neu gyfres o benderfyniadau i'w gwneud sy'n cynnwys rhwydwaith ehangach y teulu a chefnogaeth broffesiynol. Yr oedd ymyrraeth gynnar cyn bod problem yn dwysau yn gais a wnaed dro ar ôl tro.

Ac eto, efallai na fydd aelodau teulu bob amser yn cael eu cymell i ddatrys problem neu anhawster tan ei bod yn cyrraedd argyfwng neu'u bod yn cael eu

hysbysu y gall ymyrraeth gan y wladwriaeth fod yn angenrheidiol i ddiogelu plentyn. Yr oedd hyn yn her neilltuol ar gyfer llawer o wasanaethau ble y teimlai'r gweithiwr proffesiynol y byddai teulu'n elwa oddi wrth ymyrraeth gan CGT rywbryd ar ôl i fater neu bryder godi am y tro cyntaf.

Ym mha gyfnod y mae'r ymyrraeth leiaf buddiol neu'n amhriodol?
Fe wnaeth amryw o atebwyr adrodd enghreifftiau o ble y mae atgyfeiriadau yn aml yn cael eu derbyn pan fo'r plentyn ar fin cael ei roi dan ofal neu ar orchymyn gofal dros dro, ac y mae'n bur bosibl y gall CGT fod wedi dod yn rhy hwyr, os yw penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud neu os yw amgylchiadau wedi dirywio yn gyflym yn y teulu. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, fe all CGT fod yn effeithiol gyda chwilio am ffyrdd i gefnogi plentyn dan ofal i symud yn ôl adref yn ddiogel neu o ofal pan gaiff ei ystyried yn briodol ac yn ddiogel gwneud hynny.

Unwaith eto, y mae'r pŵer i atgyfeirio yn y mwyafrif o achosion yn nwylo'r gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am yr achos, ac felly efallai na chaiff teulu gyfle i gael CGT tan y gwneir hwynt yn ymwybodol o'r posibilrwydd. Y mae hyn yn cysylltu yn ôl i'r drafodaeth gynharach yn ymwneud â 'didoli proffesiynol', a all arwain at blentyn yn parhau dan ofal yn hwy nag a all fod yn angenrheidiol.

Codi Ymwybyddiaeth
Fe ofynnwyd i wasanaethau cyfrifoldeb pwy ydoedd i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth yn lleol. Unwaith eto, yr oedd hyn yn gyffredinol yn cael ei gysylltu â'r cyllid neilltuol yr oedd y gwasanaeth yn gallu'i gaffael. Ble'r sicrhawyd cyllid y tu hwnt i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol leol, yr oedd amryw o wasanaethau wedi datblygu pecyn hyfforddi ar gyfer rhaglenni gweithdai sengl neu amlasiantaethol a gynlluniwyd i godi ymwybyddiaeth o'r ymyrraeth ac i annog mwy o ddefnydd o'u gwasanaeth. Yn ychwanegol at hyn, yr oedd gwasanaethau yn ymuno'n rheolaidd â chyfarfodydd tîm i godi ymwybyddiaeth neu yr oeddynt chwilio'n weithredol am ragor o gyfleoedd i hyrwyddo'r model.

Y mae Prosiect Cylch Teulu Tros Gynnal yng Nghaerdydd, er enghraifft, wedi cael deialog gyda barnwyr llys teulu blaenllaw yn yr ardal i'w hysbysu hwynt ynglŷn â'r cyfle i deuluoedd gael CGT cyn y bydd penderfyniadau yn ymwneud ag achos gofal yn cael eu cwblhau.

Y mae gwasanaethau hefyd i gyd yn cael eu rhestru ar wefan Plant yng Nghymru sy'n cefnogi Rhwydwaith Cyfarfod Grŵp Teulu Cymru Gyfan - www.fgcwales.org.uk - ac y mae amryw hefyd yn cael eu rhestru ar wefan y Grŵp Hawliau Teuluoedd - www.frg.org.uk

Cynnwys y Defnyddwyr

Yr oedd yr ymarfer mapio hwn hefyd yn awyddus i ddysgu oddi wrth wasanaethau pa strwythurau oedd yn bodoli ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn natblygiad y gwasanaeth.

O'r 11 o wasanaethau sy'n gweithredu o fewn a ledled awdurdodau lleol yng Nghymru, fe wnaeth y mwyafrif adrodd bod ganddynt strwythurau yn eu lle i hwyluso'r gwaith o gynnwys plant, pobl ifanc a/neu deuluoedd yn y gwaith o ddatblygu'u gwasanaeth CGT. Fe all lefel y cynnwys amrywio'n sylweddol, o bobl ifanc a/neu'u teuluoedd, i strwythurau cyfranogol cadarnach sy'n cynnwys gweithio tuag at ddulliau ymgysylltu'n sy'n fwy arferol. Yr oedd y strwythurau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys:

- Grŵp Personau Ieuainc;
- Grŵp Cymorth i Rieni;
- Grŵp llywio teuluoedd neu grŵp aelodau teuluoedd.

At ei gilydd, y mae'r cyfleoedd hyn ar gyfer ymgysylltu wedi'u datblygu i ddarparu rhagor o gymorth parhaus ar gyfer plant a rhieni sydd yn flaenorol wedi cael ymyrraeth CGT a hefyd i gynorthwyo i hyrwyddo ac i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth i gynorthwyo i alluogi teuluoedd eraill i elwa. Y mae plant, pobl ifanc a/neu deuluoedd wedi bod yn gysylltiedig â:

- Dylunio llenyddiaeth hyrwyddol a dogfennau sy'n hawdd i blant eu deall;
- Datblygu offer hyrwyddol eraill, e.e. DVD;
- Darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol;
- Gweithgareddau penodol sy'n canolbwyntio ar orchwylion;
- Gweithgareddau cyfeillachu a mentora;
- Recriwtio a phenodi staff CGT.

Y mae gan Brosiect Castell Nedd Port Talbot o eiddo Barnardo's, er enghraifft, grŵp Personau Ieuainc, sydd yn y gwaith o gael ei sefydlu er mwyn gallu cael at gyllid. Y maent ar hyn o bryd yn gweithio gydag Adran y Celfyddydau Perfformio o Brifysgol Fetropolitan Abertawe ar brosiect Theatr Gymunedol. Nod hyn yw dyfeisio darn o waith i'w berfformio o amgylch y pwysigrwydd o blant a phobl ifanc yn cael llais yn eu dyfodol. Y mae'r broses yn cael ei ffilmio ac y mae yna gynlluniau i ddogfennu'r gwaith o wneud y darn gwaith, ynghyd â'r perfformiad gorffenedig, y gellir wedyn ei ddefnyddio fel offer hyrwyddol ar gyfer CauGT. Y maent yn gobeithio mynd â'r DVD i mewn i ysgolion yng Nghastell Nedd Port Talbot yn yr hydref ac y maent yn bwriadu mynd at Athrawon Cymorth Bugeiliol a gofyn a all pobl ifanc weld y DVD mewn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Cadw Golwg a Gwerthuso

Yr oedd yr ymarfer mapio yn awyddus i archwilio gydag atebwyr pa weithdrefnau oedd yn eu lle ar gyfer cadw golwg ar effeithiolrwydd yr ymyrraeth. Fe roddwyd y canlynol yn gysylltiedig fel enghreifftiau:

1. Ffurflenni Adborth

Y mae amryw o wasanaethau yn gofyn bod pawb sy'n mynychu CGT, yn cynnwys plant a'u teuluoedd, yn cwblhau ffurflen werthuso yn syth ar ôl eu cyfarfod, a fydd wedyn yn cael ei defnyddio i hysbysu ac i wella'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth. Fe fyddai'r ffurflen hon yn ddieithriad yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â'r cynllunio a'r paratoi yn arwain at y cyfarfod, a hefyd eu meddyliau a'u barnau am y cyfarfod a'r Cynllun a ddatblygwyd ac y cytunwyd arno. Y mae rhai gwasanaethau wedi cynhyrchu holiaduron penodol ar gyfer plant i'w cwblhau.

Y mae'n amgenach gan amryw o wasanaethau anfon allan ffurflenni gwerthuso gyda chopi o'r Cynllun Teuluoedd yn go fuan ar ôl y CGT i ganiatáu i blant a theuluoedd fyfyrio ar y broses, y cyfarfod a'r penderfyniadau a wnaed.

Y mae un o'r prosiectau peilot yn gwneud defnydd o offer nerthoedd ac anawsterau Goodman, ac yr oedd hefyd yn cynnwys person annibynnol i gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb a grŵp ffocws gyda theuluoedd i ganfod eu barn am y broses.

2. Y Cynllun Teuluoedd

Yr oedd yr ymarfer hefyd yn awyddus i ddysgu am ba drefniadau oedd yn eu lle ar gyfer adolygu'r Cynllun Teuluoedd a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu.

Y mae amryw o wasanaethau yn cynnig cyfle i deuluoedd gynnal o leiaf un cyfarfod Adolygu. Y mae'r broses hon yn cynnwys y teulu gyda'r gweithiwr (gweithwyr) proffesiynol yn ailgynnull i roi sylw i unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Cynllun y cytunwyd arno'n flaenorol ac i wneud gwelliannau yn unol â hynny, pe na fyddai unrhyw rai o'r gweithgareddau yn y Cynllun heb eu gweithredu neu os yw amgylchiadau'r plentyn wedi newid. Y mae hefyd yn darparu cyfle i aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol, fel ei gilydd, ddod ag unrhyw rai o'r gweithredoedd y cytunwyd arnynt i dasg nad ydynt wedi'u gweithredu neu i roi adborth am y rhai hynny sydd wedi'u gweithredu.

Y mae'r broses CGT yn eglur yn yr ystyr mai'r teulu, gan fod perchenogaeth y Cynllun yn perthyn i'r teulu, sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am y Cynllun a'i effeithiolrwydd. Ni fyddai gan yr un gwasanaeth rôl mewn gorfodi Cynllun Teuluoedd er yr oedd yna ddisgwyliad eglur y byddai'r gweithiwr proffesiynol a oedd wedi atgyfeirio'r teulu ar gyfer CGT yn cymryd cyfrifoldeb am ddarparu cymorth i'r plentyn a/neu'r teulu gyda gweithredu a chadw golwg ar y Cynllun.

3. Gwerthuso hirdymor

Yr oedd yr ymarfer hwn hefyd yn ceisio â dysgu am y peirianweithiau sydd yn eu lle i werthuso effaith hirdymor yr ymyrraeth dros amser.

Fe wnaeth amryw o wasanaethau adrodd eu bod wedi'u gwerthuso, naill ai'n fewnol gan eu hasiantaeth neu'n allanol gan gorff o'r tu allan. Y mae rhai o'r prosiectau mwy sefydledig – Taith Y Teulu yn Sir Y Fflint – wedi'u gwerthuso ar amryw o achlysuron gwahanol, gyda'r gwasanaeth a gyllidir gan Cymorth hefyd yn ddarostyngedig i adolygiad annibynnol. Fe wnaeth gwasanaeth Cartref Bontnewydd, sy'n gweithredu ledled 5 o ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, gyflawni Nod Barcud Clywed yn 2006/7 am gynnig gwasanaeth a oedd yn dangos ei ymrwymiad i wrando ar blant a phobl ifanc.

Yr oedd gwasanaeth Atebion Teulu NCH yn ddarostyngedig i werthuso dwy flynedd a wnaed gan Brifysgol Caerdydd ble y cafodd gweithwyr proffesiynol, aelodau teulu a phlant/pobl ifanc eu cyfweld ac fe ofynnwyd am eu barn am y gwasanaeth yr oeddynt wedi'i dderbyn ac effaith y gwasanaeth hwn ar ôl chwe mis oddi wrth eu CGT *(gweler yr adran detholiad o ddeunydd darllen pellach yn yr adroddiad hwn).* Y mae'r prosiectau peilot yn y cyfamser yn ddarostyngedig i werthuso parhaus a wneir yn angenrheidiol gan natur y trefniadau cyllido byrdymor.

Yr oedd amryw o wasanaethau hefyd yn gallu darparu enghreifftiau o sut y mae'u gwasanaeth wedi gwneud newidiadau mewn ymateb i argymhellion am welliant mewn gwerthusiadau a wneir. Yr oedd y rhain yn cynnwys gwella'r ffordd o gynnwys defnyddwyr gyda hysbysu'r gwaith o ddatblygu'u gwasanaeth ac ymestyn y ddarpariaeth a chefnogaeth eiriolaeth ar gyfer plant cyn ac yn ystod CGT.

Fe wnaeth lleiafrif o wasanaethau adrodd nad oeddynt wedi'u gwerthuso'n annibynnol. Fodd bynnag, y mae'r cyfan o'r 11 o ddarparwyr gwasanaethau ledled Cymru wedi bod yn weithredol gysylltiedig â darparu data i hysbysu'r Rhaglen Offer Gwerthuso Cymru Gyfan a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd. Fe ellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn oddi wrth Abyd Quinn-Aziz, ym Mhrifysgol Caerdydd, E-bost: QuinnAzizA@cf.ac.uk

Datblygu Gwasanaethau a Blaenoriaethau'r Dyfodol

Blaenoriaethau ar lefel leol

Fe wnaeth llawer o wasanaethau siarad am yr angen parhaus i sicrhau cyllid ychwanegol i sicrhau bod y lefelau darparu cyfredol o CauGT yn cael eu cynnal, i gynorthwyo gyda rhagor o dwf yn y gwasanaeth ac i sicrhau sefydlogrwydd yn y gweithlu. I wasanaethau a sefydlwyd yn ddiweddar, yr oedd yr ysgogiad yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a chynyddu'r gyfradd atgyfeirio a chyfleoedd i deuluoedd gael at yr ymyrraeth.

Fe wnaeth gwasanaethau hefyd wneud cyfeiriad at wneud cysylltiadau gyda'r farnwriaeth a chyfreithwyr llysoedd gyda datblygu'u gwaith yn y maes allweddol hwn, a hefyd ddatblygu mwy o ddefnydd o'u gwasanaeth gyda'r sectorau addysg, cyfiawnder ieuenctid ac iechyd ac ymysg grwpiau nas cynrychiolir ddigon. Yr oedd cysylltiadau gyda'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gofal carennydd a gwaith adferol gyda throseddwyr ieuainc hefyd yn gyfeiriadau fel blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Y mae'r gwasanaeth Taith Y Teulu sy'n gweithredu yn Sir Y Fflint wedi cyflwyno gwasanaeth Cynadleddau Cymunedol fel estyniad i egwyddorion a gwerthoedd y model CGT. Y mae'r ymyrraeth hon wedi'i defnyddio mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwaith pontio rhwng y cenedlaethau sydd hefyd yn derbyn atgyfeiriadau ledled y gymuned. Y nod yma yw datblygu rhagor ar y gwasanaeth hwn.

Blaenoriaethau ar lefel genedlaethol

Fe wnaeth amryw o atebwyr enwi blaenoriaethau allweddol ar lefel genedlaethol a oedd yn cael eu gweld fel ymhlyg os yw'r cynnydd hyd yn hyn yn ymwneud â thwf a datblygiad i'w adeiladu arno a'i gymryd i'r lefel nesaf. Yr oedd blaenoriaethau allweddol yn cael eu gweld fel:

1. **Gweithiwr Datblygu**

Er yr oedd yna enghreifftiau oedd yn ailadrodd eu hunain o bartneriaeth a gwaith hyrwyddol yn cael eu gwneud rhwng ac o fewn asiantaethau, fe gafodd yr angen i leoli arweinydd cenedlaethol i gynorthwyo i ddatblygu'r model ei nodi gan amryw o atebwyr. Hyd yn hyn, yr oedd yna ddeialog wedi bod mewn perthynas â chanfod cyfleoedd am gyllid a swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd hon.

2. **Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Fe enwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru gan atebwyr fel bod â rôl allweddol o ran arweinyddiaeth mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r defnydd o CGT ar lefel genedlaethol a strategol. Fe deimlwyd fod arnynt angen ystyried y doreth o gyfleoedd y gall CGT eu darparu pan fo polisïau a chanllawiau'n cael eu cynhyrchu ym maes gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd yn neilltuol.

Y mae'r Gweinidog dros Blant presennol wedi mynychu ac annerch o'r blaen amryw o ddigwyddiadau allweddol a gydlynwyd gan aelodau Rhwydwaith CGT Cymru Gyfan, ac fe gafodd y gefnogaeth hon ei chydnabod fel amhrisiadwy gan amryw o atebwyr. Yr oedd cydnabyddiaeth o CGT hefyd yn dod yn fwy amlwg o fewn amryw o ddogfennau allweddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac fe welwyd hyn eto fel tystiolaeth bod mwy o gydnabyddiaeth o werth yr ymyrraeth yn cael ei hadlewyrchu ar y lefel uchaf yn y Cynulliad.

Sylwadau i Gloi

Er bod cynnydd cyson wedi'i wneud, fe gredai ymatebwyr y gallai'r ymgyrch wleidyddol genedlaethol fynd yn llawer pellach tuag at wireddu'r dyhead trwy'r hyn y mae CauGT yn cael eu cynnig yn rheolaidd i bob teulu sy'n gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol. Fel a drafodwyd yn flaenorol, ar hyn o

bryd y mae gweithwyr proffesiynol yn pennu pa deuluoedd sy'n cael eu rhoi ymlaen ar gyfer CGT a pha rai nad ydynt. Y mae'r ymarfer yn ôl disgresiwn cyfredol yn mynnu rhyw fath o graffu i gynorthwyo i sicrhau bod cysondeb yn cael ei gymhwyso o fewn a ledled ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Fe gafodd y parodrwydd ymysg rhai gweithwyr proffesiynol i ganiatáu i deuluoedd chwilio am atebion drostynt eu hunain gyda chefnogaeth statudol ei amau gan atebwyr drwy gydol yr ymarfer hwn. Y mae'r 100 a mwy o atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn Sir Y Fflint yn dangos yn eglur yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd ymyrraeth yn cael ei phrif ffrydio a'i phlannu o fewn ymarfer beunyddiol. Ar hyn o bryd, y mae'r gyfundrefn yn dibynnu ar unigolion i hyrwyddo'r model, a heb hyn, y mae'r nifer sy'n cymryd rhan ac yn ymgysylltu yn isel.

Y mae CauGT eisoes yn cael eu hargymell fel un o lawer o ymyraethau sydd ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd ar lefel strategol genedlaethol – sy'n eglur o fewn Canllaw i'r Rheolau Llys Deddf Plant 1989 sydd wedi'i ddiwygio'n ddiweddar. Eto, y mae'r ymarfer yn dal heb ddod yn brif ffrwd. Y mae CauGT i raddau pell iawn yn parhau i fod wedi'u hymyleiddio ac ar y cyrion ym maes lles plant, ac yn wir, nid ydynt ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Y mae angen rhagor o waith gyda phenaethiaid gwasanaethau mewn llawer o ardaloedd gan nad oes yna ofyniad statudol i ddarparu neu i gomisiynu gwasanaethau CGT.

Fe deimlai amryw o atebwyr yn gryf y dylai plant a theuluoedd gael hawl statudol i gael cynnig CGT mewn rhai sefyllfaoedd neilltuol, yn cynnwys cyn gofal ac ochr yn ochr ag ymchwiliadau amddiffyn plant, gyda'r Cynllun CGT yn cael ei fwydo i'r gynhadledd amddiffyn plant. Enghreifftiau pellach a roddwyd oedd pan fo'n rhaid cael cynllun cysylltu ar gyfer plentyn dan ofal a phan na all plentyn mwyach fyw gartref (ac nad oes perygl uniongyrchol a syth i'r plentyn hwnnw).

Fe allai **Swyddogion Adolygu Annibynnol** hefyd chwarae rhan hanfodol gydag ymholi a yw CGT wedi'i ystyried ai peidio yn ystod yr Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal, ac archwilio'r rhesymau am hyn. Fe fydd yna, wrth gwrs, achosion unigol pan fo cyfuniad o ffactorau yn gwneud CGT yn amhriodol, ond eto fe ddylai atgyfeiriad gael o leiaf ei ystyried ym mhob achos, gyda rhesymau'n cael eu rhoi ble y teimlwyd ei fod yn anaddas.

Y mae yna hefyd angen rhoi sylw i'r prinder, a'r anghysondeb, cyllid i gynorthwyo i gymorth twf a datblygiad. Heb hyn, y mae gwasanaethau'n teimlo y bydd yr amrywiadau mewn meini prawf atgyfeirio ledled Cymru yn parhau i esgor ar wasanaeth loteri cod post, a ddylanwadir gan ble y mae plentyn yn byw yn hytrach na gan ei anghenion unigol penodol.

Fe gafodd ymagweddiad strategol cenedlaethol tuag at ymarfer a darpariaeth CGT ei nodi fel rhan o ddull i roi sylw i lawer o'r heriau allweddol hyn, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn sefyllfa dda i adeiladu ar bolisi presennol yn y maes hwn.

Detholiad o Ddeunydd Darllen Pellach

Grŵp Hawliau Teulu (2007) Defnyddio Cynadleddau Grŵp Teulu ar gyfer Plant sydd, neu a allant fod, yn ddarostyngedig i achos llys; Canllaw ar gyfer llysoedd, cyfreithwyr, swyddogion CAFCASS (Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd), ac ymarferwyr gofal plant.

http://www.frg.org.uk/pdfs/Final%20version%20of%20Guide%20for%20practitioners.pdf

Grŵp Hawliau Teulu (2007) Cynadleddau Grŵp Teulu: Ble Nesaf? Polisïau ac Arferion ar gyfer y Dyfodol.

http://www.frg.org.uk/fgc_toolkit.html

Holland S, O'Neill S, Scourfield J, Pithouse A (2003) Canlyniadau mewn Cynadleddau Grŵp Teulu ar gyfer plant ar ymylon gofal: astudiaeth o gyfranogaeth plant a theuluoedd, **Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd.**

Holland S ac O'Neill S (2006) 'Yr oedd yn rhaid inni fod yno i sicrhau'i fod yr hyn yr oeddem yn ei ddymuno: galluogi cyfranogaeth plant mewn llunio penderfyniadau'r teulu drwy'r Gynhadledd Grŵp Teulu,' **Plentyndod, 13 p91-111**

http://chd.sagepub.com/cgi/content/abstract/13/1/91

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Diogelu Plant – Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004

http://www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/guidance/?lang=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd

https://wales.gov.uk/childrenfirst

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Deddf Plant 1989 – Rheoliadau a Chanllawiau, Cyfrol 1 Gorchmynion Llys

http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/guidance/childrenact/?lang=en

Gwasanaethau Cynhadledd Grŵp Teulu yng Nghymru

Manylion Cysylltu

Enw: Dawn Bywater
Safle: Arweinydd Tîm
Sefydliad: Barnardo's Cymru
Cyfeiriad: Uned 6, Parc Menter St.Giles, Y Drenewydd
Ffôn: 01686 622083
E-bost: dawn.bywater@barnardos.org.uk

Manylion Cysylltu

Enw: Jenny Foulkes-Hanmer
Safle: Uwch-Ymarferwr
Sefydliad: Barnardo's Cymru Compass
Cyfeiriad: 2 Ffordd Grosvenor, Wrecsam LL11 1BU
Ffôn: 01978 315130
E-bost: jenny.foulkeshanmer@barnardos.org.uk

Manylion Cysylltu

Enw: Natalie Cleaves
Safle: Cydlynydd CGT
Sefydliad: NCH Cymru – Teuluoedd Ymlaen
Cyfeiriad: 24 Heol yr Orsaf, Llanelli
Ffôn: 01554 745150
E-bost: Natalie.Cleaves@nch.org.uk

Manylion Cysylltu

Enw: Gwenan Gruffydd/Maureen Japp
Safle: Rheolwr Prosiect (Rhannu Swydd)
Sefydliad: Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd
Cyfeiriad: Cartref Bontnewydd, Bontnewydd, Caernarfon. Ll54 7UW
Ffôn: 01286 672922
E-bost: gwenan@cartrefbontnewydd.org neu maureen@cartrefbontnewydd.org

Manylion Cysylltu

Enw: Pauline Bowe
Safle: Rheolwr Prosiect
Sefydliad: Taith y Teulu, Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Sir Y Fflint
Cyfeiriad: Gwasanaethau Plant, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6ND
Ffôn: 01352 702610
E-bost: pauline_b_bowe@flintshire.gov.uk

Manylion Cysylltu

Enw: David Flanagan
Safle: Rheolwr Prosiect
Sefydliad: Atebion Teulu NCH
Cyfeiriad: 30 Stow Park Avenue, Casnewydd
Ffôn: 01633 215784
E-bostl: family.answers@nch.org.uk

Manylion Cysylltu

Enw: Mike Clark
Safle: Arweinydd Prosiect
Sefydliad: Tros Gynnal – Cylch Teulu
Cyfeiriad: 12a Stryd Sussex, Grangetown, Caerdydd CF11 6SS
Ffôn: (029) 2034 4681
E-bost: mike.clark@trosgynnal.org.uk

Manylion Cysylltu

Enw: Sue Henley
Safle: Uwch-Gydlynydd CGT
Sefydliad: Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion
Cyfeiriad: Minaeron, Rhiw Goch, Aberaeron SA46 0DY
Ffôn: 07973898884
E-bost: suehe@ceredigion.gov.uk

Manylion Cysylltu

Enw: Nicola Echanis
Safle: Rheolwr Gwasanaethau Plant
Sefydliad: Barnardo's Cymru
Cyfeiriad:13-15 Heol Cadifor, Penlan, Abertawe
Ffôn: 01792 797289
E-bost: Nicola.echanis@barnardos.org.uk

Manylion Cysylltu

Enw: Keith Buckler
Safle: Cydlynydd Cynhadledd Grŵp Teulu
Sefydliad: Cyngor Bro Morgannwg
Cyfeiriad: Swyddfa'r Doc, Dociau'r Bari, Y Bari CF63 4RT
Ffôn: 01446 733365
E-bost: kbuckler@valeofglamorgan.gov.uk

Manylion Cysylltu

Enw: Karen Rees
Safle: Arweinydd Tîm Gwasanaeth CGT
Sefydliad: Barnardo's Cymru
Cyfeiriad: 19 Heol London, Castell Nedd, SA11 1LF
Ffôn: 01639 620771
E-bost: karen.rees@barnardos.org.uk

Children in Wales
Plant yng Nghymru

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru, sy'n tynnu ynghyd sefydliadau ac unigolion i wneud Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realiti yng Nghymru. Y mae Plant yng Nghymru hefyd yn ymladd dros wasanaethau o ansawdd cynaliadwy ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, a sylw arbennig i blant mewn angen, yn ogystal â sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais mewn materion sy'n effeithio arnynt.

Y mae gan Plant yng Nghymru fwy na 200 o aelodau, yn cynnwys yr asiantaethau gwirfoddol mawrion dros blant, cymdeithasau proffesiynol ac awdurdodau lleol, yn ogystal â llawer o grwpiau cymunedol llai.

Y mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â Biwro Cenedlaethol y Plant yn Lloegr, a Plant yn yr Alban ac yn rhyngwladol gyda'r Fforymau Ewropeaidd a Rhyngwladol dros Les Plant.